

Astudiaeth Achos

Cludiant Gwirfoddol Gŵyr

Dechreuwyd Cludiant Gwirfoddol Gŵyr (GVT) mewn ystafell ffrynt dros 30 mlynedd yn ôl gan ddau wirfoddolwr oedd yn poeni bod pobl hŷn yn mynd yn ynysig yn eu pentref, sef Penclawdd, Abertawe. Cynllun ceir cymunedol ydyw a sefydlwyd ym 1987 i ddarparu cludiant i bobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd wedi'u cau allan yn gymdeithasol nad yw trafndiaeth gyhoeddus naill ai ar gael neu'n hygyrch iddynt. Ers ei sefydlu, mae'r gwasanaeth sydd dan arweiniad gwirfoddolwyr wedi tyfu'n sylweddol ac erbyn hyn mae'n darparu tua 7000 o deithiau'r flwyddyn.

Mewn oes gynyddol ddigidol, mae'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Hildegard Roberts a'i thîm bach o wirfoddolwyr yn y swyddfa yn gweithio mewn ffordd hen ffasiwn er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr eu gwasanaeth. Gyda thua 30 o yrwyr gwirfoddol ar gael ar adegau amrywiol trwy gydol yr wythnos, gall y tîm baru cleient â gyrrwr o'r cof (gyda chymorth dyddiadur A4!) gyda dim ond 24 awr o rybudd ac maent yn cynnig teithiau chwe diwrnod yr wythnos. Nid oes gan y sefydliad unrhyw weithwyr cyflogedig ac mae'r tîm yn cyfrannu dros 5000 o oriau gwirfoddol y flwyddyn. Yn anffodus, mae'n rhaid iddynt wrthod tua 2% o'r ceisiadau am deithiau o hyd oherwydd diffyg adnoddau ac maent wastad yn chwilio am yrwyr gwirfoddol i'w helpu i ateb y galw. Mae'r rhan fwyaf o'u gwirfoddolwyr yn cael eu cyfeirio gan ffrindiau sydd eisoes yn gwirfoddoli i GVT, ac mae rhai yn ymuno â'r cynllun ar ôl gweld posteri yn eu cymuned leol.

Taclo'r teimlad o fod yn unig ac ynysig

Er bod Penclawdd yn un o bentrefi prydferthaf Bro Gŵyr, mae'n weddol anghysbell ac nid oes gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus da yno. "Fyddai defnyddwyr ein gwasanaeth ddim yn gallu ymdopi hebom ni," meddai Hildegard, "does dim dewis arall yma mewn gwirionedd. Mae'r bysiau cyhoeddus mor gyfyngedig gyda phellteroedd mawr rhwng yr arosfannau bysiau a phobl yn byw ar hyd lonydd culion â'u cartrefi ymhell o'r llwybr bysiau. Nid oes gan fwyafrif y bobl hŷn sy'n byw yn y pentref geir; dechreuwyd GVT er mwyn cefnogi'r bobl hŷn ac anabl hynny a fyddai fel arall yn gaeth i'w cartrefi."

Mae gwasanaeth GVT wedi tyfu allan o Benclawdd ac erbyn hyn mae ganddynt wirfoddolwyr ar hyd a lled Gorllewin Abertawe sy'n defnyddio eu ceir eu hunain i gefnogi pobl nad oes unrhyw fath arall o gludiant ar gael iddynt. Mae'r teithiau hyn yn costio 60c y filltir i'r teithiwr gydag isafswm tâl o £3, ac mae'r gefnogaeth yno i'r teithwyr ar gyfer ystod eang o deithiau gan gynnwys apwyntiadau meddygol, mynychu canolfannau dydd a chlybiau cymdeithasol, gwneud y siopa wythnosol neu ddim ond cwrdd â ffrindiau. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gyrchfannau'r teithwyr, gan greu gwasanaeth democrataidd a hwylus i bobl y byddai eu hiechyd, eu symudedd neu eu hincwm yn peri iddynt fod yn gaeth yn eu

cartrefi eu hunain heb y gwasanaeth. Mae llawer o gleientiaid GVT yn defnyddio'r gwasanaeth ar gyfer eu holl deithiau, gan gynnwys cysylltiadau a pharhau i fod yn rhan o'u cymunedau eu hunain.

Cludiant ar gyfer iechyd

Mae tua 45% o deithiau GVT yn cysylltu teithwyr ag apwyntiadau iechyd, yn bennaf yn yr ysbyty a meddygfeydd lleol gyda rhai pobl hefyd yn mynd at ddeintyddion, optegwyr ac apwyntiadau ffisiotherapi. Roedd mynd i'r ysbyty lleol yn arfer bod yn ganran fwy sylweddol o'u teithiau iechyd, ond bellach, wedi i feddygfa fach leol gau yn ddiweddar, mae cleientiaid GVT yn teithio ymhellach at eu meddyg agosaf. Mae hyn wedi effeithio ar amseroedd a phellteroedd siwrneiau, yn enwedig gan fod eu cleientiaid yn heneiddio a'u hanghenion yn gynyddol gymhleth.

Mae **Mrs A** yn byw yn West Cross a dros y misoedd diwethaf mae hi wedi bod yn defnyddio GVT ar gyfer apwyntiadau iechyd o leiaf dair gwaith yr wythnos. Er y byddai'n gymwys ar gyfer y gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS), byddai hyn yn golygu y byddai pob ymweliad â chlinig clwyfau'r ysbyty - chwarter awr o daith o'i chartref, yn cymryd y rhan fwyaf o'r dydd oherwydd cyfyngiadau'r gwasanaeth hwnnw. Mae ei salwch yn golygu na all ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus, felly mae cymorth GVT wedi ei galluogi i fynychu ei holl apwyntiadau yn hytrach na gorfod dewis rhwng colli apwyntiad neu ddiodeff blinder mawr wrth aros am yr ambiwlans NEPTS. Wrth i'w hiechyd wella a'r apwyntiadau yn y clinig clwyfau ddod yn llai aml, mae GVT wedi dechrau ei chludo i sesiynau ffisiotherapi nofio sy'n ei helpu i adfer ei nerth a'i hystwythder. Mae cefnogaeth GVT yn hanfodol i Mrs A, ac yn gwarchod ei hiechyd a'i lles a sicrhau ei bod yn parhau'n annibynnol.

Mae GVT yn derbyn tua £10,000 bob blwyddyn gan Gyngor Abertawe i'w cynorthwyo i ddarparu eu gwasanaethau trwy dalu costau'r swyddfa gefn a threuliau gwirfoddolwyr. Mae'r cyllid hwn, gyda chymorth cyfraniadau teithwyr, yn allweddol i sicrhau bod teithwyr GVT yn gallu gwneud y siwrneiau hanfodol hyn nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o'u gwneud. Mae'r bygythiad o doriadau yn y cyllid bob blwyddyn, fodd bynnag, yn peryglu tua 3000 o deithiau sy'n cysylltu cleifion, a phopeth a ddaw yn eu sgil. Gyda gwasanaeth bws cyhoeddus cyfyngedig a theithiau tacsï sy'n rhy ddrud, byddai unrhyw doriadau i wasanaeth GVT yn golygu na fyddai llawer o'r cleientiaid hyn a bregus hyn yn gallu mynychu eu hapwyntiadau. Hyd yn hyn maen nhw wedi bod yn ffodus ac nid yw'r cyllid wedi'i leihau, ond cael a chael yw hi ac mae Hildegard eisoës yn ymchwilio i ffynonellau cyllid gwahanol er mwyn sicrhau y gall y siwrneiau hanfodol hyn barhau.

Mae **Mrs B** yn byw yn Mayals ac yn defnyddio GVT ar gyfer ei holl gludiant. Mae hi'n 96 oed ac nid yw wedi gyrru erioed, ac yn ddiweddar bu'n rhaid i'w nith a'i nai a arferai fynd â hi allan yn eu car ddechrau defnyddio'r bws eu hunain. Oherwydd bod ei hiechyd yn dirywio, mae Mrs B yn cael apwyntiadau yn fynych gyda'r meddyg teulu, yr ysbyty a'r optegwyr lleol, ac mae hefyd yn defnyddio GVT i ymweld â ffrindiau ac i siopa. Mae hi wedi dod yn dipyn o ffrindiau gydag un o'r gyrwyr gwirfoddol a ddechreuodd wirfoddoli oherwydd ei fod ef ei hun wedi bod yn teimlo'n unig ac ynysig, ac mae'r ddau ohonyn nhw'n cael budd mawr o'u teithiau rheolaidd. Heb GVT, ni fyddai Mrs B yn gallu fforddio dim ond siwrneiau hanfodol gan fod tacsï yn yr ardal mor ddrud ac nad oes modd iddi fynd ar fws cyhoeddus. Mae GVT yn ei galluogi i gadw'n iach ac i gadw cysylltiad â'i chymuned.